O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1716 (Cy.163)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 i gywiro anghysonderau yn nhestun y Rheoliadau.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1716 (Cy.163)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *28 Mehefin 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
1 Gorffennaf 2008

Yn dod i rym *31 Gorffennaf 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006**(1)** ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy**(2)**, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(1) 2006 p.21.
(2) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Diwygiadau i Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008.

2.-(1) Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 **(3)** yn cael eu diwygio fel a ganlyn**:-**

(2) Yn rheoliad 4(1)(f) yn y testun Cymraeg yn unig yn lle "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 4(1)(h) yn y testun Saesneg yn unig yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers".

(4) Yn rheoliad 6, yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle'r ymadrodd "awdurdodau lleol", rhodder yr ymadrodd "awdurdod lleol".

(5) Yn rheoliad 7, yn y testun Cymraeg yn unig, rhwng "gwybodaeth" ac "yn" mewnosoder "ar unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau eraill neu unrhyw gyhoeddiadau".

(6) Yn rheoliad 9, yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle "adnoddau", rhodder "ffynonellau".

Jane E. Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2008

(3) O.S. 2008/170 (Cy.23).